# Polisi Iaith Gymraeg Plantlife 2021

## 1. Cefndir

1.1 Mae llawer o ieithoedd brodorol ledled y byd wedi wynebu dirywiad difrifol yn ystod y ganrif ddiwethaf, yn union fel ein planhigion gwyllt a'n ffyngau. Mae amrywiaeth a hynodrwydd lleol wedi'u herydu, ac fel ein fflora, mae treftadaeth ieithyddol a diwylliannol yn agored i ddirywiad a difodiant.

1.2 Cymraeg yw iaith frodorol Cymru ac mae'n un o ieithoedd hynaf, os nad yr iaith ysgrifenedig hynaf, yn Ewrop. Erbyn hyn, tua 29% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg[1], lle unwaith roedd y mwyafrif yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, tra gwelwyd dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod y chwyldro diwydiannol, yn sgil mewnfudo ac allfudo, ac yn sgil globaleiddio, mae'r iaith wedi ffynnu yn y degawdau diwethaf yn sgil twf addysg Gymraeg, llwyddiant S4C, a chynllunio deddfwriaethol.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i 1 miliwn o bobl siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi cynnwys uchelgais y bydd Cymru yn amgylcheddol gynaliadwy, yn ddiwylliannol amrywiol ac yn economaidd ffyniannus ac y bydd yn genedl lle mae'r Gymraeg nid yn unig yn goroesi ond yn ffynnu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

1.4 Mae synergeddau sylweddol gyda'n gwaith gan fod angen i ni ddiogelu ac adfer cymunedau ecolegol ac ieithyddol sy'n wahanol yn rhanbarthol. Mae Plantlife yn cydnabod bod gennym rôl i'w chwarae yn y ddau faes, drwy ein gwaith gyda chymunedau yng Nghymru wrth amddiffyn planhigion a rhywogaethau gallwn hefyd chwarae ein rhan i annog twf a defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

## 2. Cyflwyniad i Plantlife a'n hymrwymiad i'r iaith Gymraeg

2.1 Mae Plantlife yn elusen sydd â chylch gwaith rhyngwladol ac mae gennym Bolisi Datganoli sy'n nodi ein hymrwymiad i weithio mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn parchu anghenion gwahanol y planhigion a'r bobl yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Mae'r polisi yn nodi ymrwymiad yr elusen i barchu amrywiaeth a chydymffurfio â gwahanol fframweithiau deddfwriaethol a pholisi a osodir gan wahanol Lywodraethau'r DU, fel y maent yn berthnasol i'r sector gwirfoddol.

2.2 Mae rhan o'r polisi hwnnw yn cynnwys ymrwymiad i lunio deunydd yn Gymraeg ac i sicrhau dulliau cyfathrebu priodol yn Gymraeg.

2.3 Mae'r Polisi hwn yn manylu ymhellach ar ein hymrwymiad i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Dylid hefyd ei ddarllen ar y cyd â'n cynllun iaith Gymraeg, sy'n nodi'r gwasanaethau yr ydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg.

2.4 Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol sy'n cael ei chydnabod mewn statud yn y DU drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n elfen graidd o hunaniaeth a diwylliant Cymru. Roedd y Ddeddf yn cyflwyno Safonau'r Gymraeg a'r gofyniad cyfreithiol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er nad yw sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat yn cael eu henwi yn y

---

[1] **Yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru 2020 mae 29.1% o bobl tair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 883,600 o bobl. Mae'r gyfran hon wedi bod yn codi'n araf ers 2010[1].**

Mewn Partneriaeth â
**Llywodraeth Cymru**
In Partnership with
**Welsh Government**

ddeddfwriaeth hon ar hyn o bryd, mae Plantlife yn dymuno bod yn rhagweithiol wrth weithio tuag at gyflawni'r Safonau hynny dros amser.

2.5 Mae gan nifer o bartneriaid Plantlife, gan gynnwys y cyrff cyllido sy'n gweithredu yng Nghymru, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Loteri Dreftadaeth a'r Loteri Fawr siaradwyr Cymraeg yn gweithio iddyn nhw ac yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae ganddyn nhw'r hawl i weithio gyda ni yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.6 Rydyn ni hefyd yn gweithio mewn cymunedau ar draws Cymru a bydd llawer o'n haelodau a'n gwirfoddolwyr yn siaradwyr Cymraeg ac yn dysgu'r iaith, ac mae ganddyn nhw hefyd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni lle maen nhw'n dymuno gwneud hynny.

2.7 Nod y polisi hwn, felly, yw nodi ein hymrwymiad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Dyma ein hegwyddorion sylfaenol allweddol:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

2.8 Dyma ein huchelgais ar gyfer sut y gallwn gyfrannu at hybu'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd:

> *Mae blodau gwyllt, planhigion a ffyngau yn goleuo ein tirwedd ac yn rhan amhrisiadwy o'n treftadaeth naturiol. Yn yr un modd ag yr ydyn ni'n dymuno amddiffyn a gwarchod amrywiaeth planhigion, rydyn ni'n dymuno chwarae ein rhan i annog amrywiaeth ieithyddol, a byddwn yn hwyluso ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg i'w helpu nid dim ond i oroesi, ond i ffynnu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.*

2.9 Bydd y polisi hwn yn helpu i gyfleu neges Plantlife i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru, drwy barchu eu hanghenion a'u dymuniadau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni, a nodi ein huchelgais o fod yn hwylusydd i gefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ehangach.

## 3. Uchelgais tymor hwy

3.1 Yn y tymor hwy, mae Plantlife yn awyddus i fodloni Mesur Safonau'r Gymraeg (Cymru) 2011. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod y bydd angen newid a buddsoddiad sylweddol ar gyfer hyn, ac y bydd hyn yn cymryd amser.

3.2 Felly rydyn ni'n ymrwymo i Gynllun Iaith Gymraeg gwirfoddol i ddechrau'r broses o wella a buddsoddi er mwyn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg i bobl Cymru. Rydyn ni'n cydnabod y bydd datblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg yn helpu Plantlife i gyflawni ei waith yng Nghymru a bodloni ysbryd y ddeddfwriaeth i'r graddau y mae'n briodol ac yn ymarferol dan yr amgylchiadau.

3.3 Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cyson a dibynadwy i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Mae'r Cynllun yn rhestru'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg ac mae crynodeb o'r prif wasanaethau ar gael isod:

- Gohebiaeth
- Galwadau ffôn
- Cyfarfodydd
- Digwyddiadau cyhoeddus
- Adroddiadau a chyhoeddiadau
- Cyfryngau ac allgymorth

- Gwefan, apiau
- Arwyddion
- Contractau a thendrau
- Brandio, marchnata a chyfryngau cymdeithasol
- Gwirfoddoli

## 4. Rolau a chyfrifoldebau

4.1 Mae gan bob aelod o staff ar draws Plantlife gyfrifoldeb am gyflawni eu rolau gan gydymffurfio â'r Polisi a'r Cynllun fel y mae'n berthnasol i'w maes gwaith. Nid oes dim yn y polisi nac yng Nghynllun yr Iaith Gymraeg yn gwrthdaro ag amcanion elusennol Plantlife, nac yn eu cyfaddawdu.

4.2 Bydd yr holl staff yn cael gwybod am y Polisi hwn a'u gwneud yn gyfarwydd ag ef drwy system Breathe HR Plantlife.

4.3 Mae goruchwyliaeth strategol a chyfrifoldeb am y Polisi hwn ac am y Cynllun yn perthyn i Plantlife yn ei gyfanrwydd, gyda materion gweithredol dan arweiniad yr Uwch Dîm Rheoli. Mae gan y rolau canlynol gyfrifoldebau penodol:

- Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg Bydd aelod o'r bwrdd yn gyfrifol am hyrwyddo rôl a phwysigrwydd y Gymraeg o fewn gwaith yr elusen gyfan
- Person cyfrifol Bydd aelod penodol o'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am y Polisi a'r Cynllun, ei gyflawni, ei adolygu ac adrodd arno
- Prif swyddog ar gyfer Plantlife Cymru Bydd gan bennaeth tîm Plantlife Cymru rôl bwysig yn y gwaith o gyflawni materion gweithredol sy'n ymwneud â'r Polisi a'r Cynllun.

## 5. Monitro, Adrodd ac Adolygu

5.1 Rydyn ni'n monitro ein cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn barhaus a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein perfformiad a'n cynnydd i'r Bwrdd unwaith y flwyddyn o leiaf.

5.2 Bydd y polisi'n cael ei gadw'n gyfredol a bydd yn cael ei adolygu bob 3 blynedd o leiaf, neu'n gynt os bydd cwynion neu faterion perfformiad eraill yn codi, neu bolisi neu ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod angen hynny.

5.3 Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein polisi ar unrhyw adeg. Y staff canlynol yw'r prif gysylltiadau ar gyfer y Polisi hwn a'r Cynllun Iaith Gymraeg, a gellir cysylltu â nhw ynghylch y broses o'u gweithredu ac adborth:

| | | |
|---|---|---|
| Vickie Wood | Cyfarwyddwr Codi Arian a Marchnata | Vickie.Wood@plantlife.org.uk |
| Nicola Hutchinson | Cyfarwyddwr Rhaglenni Cadwraeth | Nicola.Hutchinson@plantlife.org.uk |
| Lizzie Wilberforce | Arweinydd Plantlife Cymru | Lizzie.Wilberforce@plantlife.org.uk |

## 6 Cwynion

6.1 Rydyn ni'n awyddus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel pan fyddwn yn cynnal ein gwaith yng Nghymru ac felly, hoffem glywed gan ein rhanddeiliaid ar y cyfle cyntaf os ydynt yn anfodlon â'n gwasanaeth. Byddwn yn ceisio datrys unrhyw faterion yn anffurfiol ac mor fuan â phosibl. Os bydd cwynion allanol am y Polisi a'r Cynllun a'r broses o'u gweithredu, gellir cyfeirio'r rhain drwy e-bost at Joanna Bromley neu Nicola Hutchinson (Uwch Reolwyr, manylion uchod).

6.2 Dylid cyfeirio pryderon mewnol am y dogfennau a'r broses o'u gweithredu at Nicola Savage (Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau).

Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government